

TUC Cymru 50 1974 - 2024

# Cyrsiau i bob cynrychiolydd undeb

## Medi 2024 – Gorffennaf 2025



# Cynnwys:


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am gyrsiau addysg TUC | **5** |
| Canllaw ar ryddhau gyda thâl | **7** |
| Cod ymddygiad | **10** |
| Achredu a llwybrau | **11** |
| Rhestrau cyrsiau | **19** |
| Sut mae gwneud cais | **25** |
| Pecynnau cymorth ac adnoddau defnyddiol | **27** |
| Rhwydweithiau a dysgu rhyngweithiol | **35** |


## Eich tîm addysg TUC Cymru

**Julie Cook** - Swyddog Cenedlaethol

**Jo Rees** - Swyddog Polisi (Addysg)

**Gavin Pearce** - Swyddog Cefnogi Polisi a Chyfathrebu


**TUC Cymru 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9SD Ffôn: 029 2034 7010**

Gwefan: tuc.org.uk/courses-reps-wales-tuc
E-bost: wtuc@tuc.org.uk



# Gwybodaeth am gyrsiau Addysg TUC



**Mae ein rhaglenni hyfforddi i gynrychiolwyr undeb wedi cael eu cynllunio i gynnig profiad addysgu gwych, beth bynnag yw eich rôl:**

→ cynrychiolydd undeb
→ cynrychiolydd iechyd a diogelwch
→ cynrychiolydd dysgu
→ cynrychiolydd cydraddoldeb
→ cynrychiolydd gwyrdd/amgylchedd
→ cynrychiolydd undeb llafur arall

Bydd hyfforddiant ar gael a fydd yn eich cyflenwi â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i wneud gwahaniaeth go iawn yn eich gweithle.

## Cynhwysol a chroesawgar

Rydyn ni am i chi fanteisio i'r eithaf ar ein cyrsiau a theimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, beth bynnag yw eich cefndir. Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i driniaeth gyfartal, heb wahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd/cred, oedran nac ailbennu rhywedd.

## Ehangu'r dewis

Mae bywyd yn torri ar draws weithiau, felly os nad ydych yn gallu dod i gwrs, cysylltwch â ni ac fe wnawn ein gorau i helpu.

## Tiwtoriaid TUC Cymru

Mae pawb yn gwybod pa mor bwysig yw tiwtor da. Mae ein holl diwtoriaid yn undebwyr llafur profiadol sy'n deall rôl cynrychiolydd. Mae ein tiwtoriaid yn gwneud yn siŵr bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sydd i'w wybod ynghylch materion yn ymwneud â'r gweithle, felly byddwch yn cael y profiad dysgu gorau gan y bobl sy'n ei gwybod hi.



1

# Canllaw ar ryddhau gyda thâl

# Canllaw ar ryddhau gyda thâl

Mae bod yn gynrychiolydd undeb yn bwysig ac yn rhoi boddhad, ond nid yw'n hawdd bob amser. Mae undebau, llywodraethau a chyflogwyr yn gwybod bod hyfforddi cynrychiolwyr yn hollbwysig.

Dyna pam mae'r gyfraith wedi rhoi hawl i gynrychiolwyr undebau gael amser o'r gwaith gyda thâl i fynychu cyrsiau hyfforddi TUC neu undeb, boed hynny mewn ystafell ddosbarth neu ar-lein. Os ydych chi:

- → yn gynrychiolydd undeb
- → yn gynrychiolydd iechyd a diogelwch undebau
- → yn gynrychiolydd dysgu undebau

**Dyma ffynonellau'r hawliau cyfreithiol i amser cyfleuster:**

- → **Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur 1992 (adran 168)**
- → **Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977**

  http://bit.ly/SRSCregs77

- → **Amser i ffwrdd ar gyfer Dyletswyddau a Gweithgareddau Undebau Llafur**

  Cod Ymarfer 3 ACAS. Ar gael yn https://bit.ly/44wtR98

- → **Cynrychiolaeth Undebau Llafur yn y Gweithle**

  Canllawiau ACAS. Ar gael o http://bit.ly/UnionRep

## Cynrychiolwyr undebau a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch

Dylai cynrychiolwyr undebau a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch ofyn i'w cyflogwr am amser o'r gwaith gyda thâl yn y lle cyntaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

- → Cynrychiolwyr undebau http://bit.ly/UnionReps
- → Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch http://bit.ly/SRSC1977

## Cynrychiolwyr dysgu undebau

Yn ogystal â chynrychiolwyr undebau a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch, mae gan gynrychiolwyr dysgu undebau hawl i ryddhad gyda thâl;

- → i gwblhau eu hyfforddiant
- → i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i gyd-weithwyr ar ddysgu a sgiliau, a chamu ymlaen yn y gwaith
- → i hyrwyddo dysgu a sgiliau yn y gweithle
- → i weithio gyda chyflogwyr i ddatblygu a gwella polisïau ac arferion yn y gweithle o ran dysgu a sgiliau
- → i wella mynediad i hyfforddiant ac i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â dysgu yn y gweithle
- → i weithio gyda darparwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu rhaglenni dysgu yn y gweithle

*Os ydych chi'n cael trafferth cael cymeradwyaeth i gymryd amser o'r gwaith i fynychu hyfforddiant, dylech geisio cymorth gan eich gynrychiolydd undeb profiadol neu gan swyddog amser llawn yn eich undeb.*

## Cynrychiolwyr arbenigol

Mae'r cynrychiolwyr hyn yn arbenigo mewn meysydd penodol. Mae'r rhain yn gallu cynnwys:

- → cynrychiolwyr cydraddoldeb
- → cynrychiolwyr gwyrdd/amgylchedd
- → pencampwyr anabledd
- → pencampwyr iechyd meddwl
- → pencampwyr pensiynau

Mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynrychiolwyr arbenigol o ran amser o'r gwaith ar gyfer gweithgareddau undebau, ond nid ar gyfer hyfforddiant undebau'n benodol. Ond mae argymhellion hyfforddi yng nghanllaw ACAS, Cynrychiolaeth Undebau Llafur yn y Gweithle



## Rhyddhau ar gyfer dysgu ar-lein

Mae'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig ar lein yn sicrhau mynediad hwylus at ein cyrsiau er mwyn i chi allu dechrau neu barhau â'ch taith ddysgu. Mae'r cyrsiau ar-lein yn cael eu harwain gan diwtor a byddan nhw'n eich helpu drwy eich taith ddysgu yn ogystal â'ch cael i weithio gyda chynrychiolwyr y tu allan i'ch undeb.

Bydd angen i gynrychiolwyr sydd eisiau gwneud ein cyrsiau ar-lein gael caniatâd rhyddhau fel y byddech chi pe bae chi'n mynd i fynychu cwrs mewn ystafell ddosbarth.

Ni ddylai dysgu ar-lein fod yn ddewis ar wahân i ryddhad cyflogedig o'r gwaith. Mae'r gyfraith yn berthnasol, p'un ai ydy dysgu'n digwydd yn y gwaith neu o'r gwaith. Gallai fod yn fwy cyfleus i gynrychiolwyr a chyflogwyr bod dysgu yn digwydd yn y gwaith, ond bydd angen amser ar gynrychiolwyr yn y gwaith i gwblhau eu dysgu.

Gallwch chi ddefnyddio'r canllaw e-ddysgu Amser Cyfleuster sydd ar gael ar www.tuc.org.uk/resource/facility-time-awareness i'ch helpu i ddeall beth mae canllawiau ACAS yn ei ddarparu.

> Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad am bwysigrwydd hanfodol amser cyfleuster i weithgarwch undebau llafur yn y sector cyhoeddus. Mae wedi anfon llythyr at brif weithredwyr yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig. Mae rhagor o fanylion ar gael yma: www.tuc.org.uk/news/wales-tuc-welcomes-welsh-governments-strong-support-trade-union-facility-time

# Cod Ymddygiad

Mae'r TUC wedi ymrwymo i drefnu gweithgareddau y gall pawb gymryd rhan ynddyn nhw mewn amgylchedd cynhwysol, parchus a diogel.

Nid yw'r TUC yn goddef unrhyw fath o aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol. Ni fydd ymddygiad neu sylwadau ymosodol, sarhaus, bygythiol, amharchus neu annerbyniol yn cael eu goddef.

Mae hyn yn ategu'r ymrwymiad a nodir yn rheolau'r TUC i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac i gael gwared â bob math o aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, rhagfarn a gwahaniaethu annheg.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob agwedd ar gyfathrebu mewn digwyddiad neu mewn cysylltiad â digwyddiad, gan gynnwys postiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon rydych chi eisiau eu codi ynglŷn ag ymddygiad, cysylltwch â Julie Cook neu Jo Rees drwy e-bost:

Julie Cook: jcook@tuc.org.uk
Jo Rees: jrees@tuc.org.uk



# 2

# Achredu a Llwybrau

# Llwybr cynrychiolwyr undebau

## Cynrychiolwyr undebau – rhan 1

Os ydych chi'n gynrychiolydd undeb newydd, mae'r cwrs hwn yn hanfodol. Byddwch yn dysgu:

- beth mae bod yn gynrychiolydd yn ei olygu,
- sut mae cynrychioli eich aelodau'n effeithiol,
- sut mae codi materion cyfunol ac unigol gyda'ch cyflogwr.

Byddwch yn deall y rôl a'i chyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio ag aelodau a chynrychiolwyr undebau eraill, siarad ag aelodau a delio â'u problemau, recriwtio aelodau a'u helpu i gymryd rhan yn yr undeb, cwrdd â rheolwyr i drafod amrywiaeth o faterion yn y gwaith, a gwneud yn siŵr bod aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn ennill Tystysgrif i Gynrychiolwyr Undebau Llafur ar lefel 1.

**Mae ein cyrsiau'n cael eu diweddaru'n llawn ar gyfer mis Medi 2024.**

## Cynrychiolwyr undebau – rhan 2

Os ydych chi wedi cwblhau 'Cynrychiolwyr Undebau – Rhan 1', neu'r hyn sydd gyfwerth yn eich undeb, bydd y cwrs hwn yn eich helpu i gamu ymlaen yn eich rôl undeb llafur. Mae'r cwrs yn ymdrin â'r canlynol:

- rolau arwain yn y strwythur cangen, h.y. cadeirydd, ysgrifennydd a thrysorydd,
- sut mae undeb llafur yn gwneud penderfyniadau a sut gallwch ddylanwadu ar eu polisïau,
- cynnal trafodaethau effeithiol,
- trefnu ymgyrchoedd llwyddiannus.

Yr amddiffyniad gorau yn y gweithle yw undebau llafur trefnus, ond mae deall beth yw ein hawliau a sut mae gwneud y defnydd gorau ohonynt yn hanfodol i'ch rôl. Byddwch yn dysgu am y canlynol:

- contractau cyflogaeth
- diswyddo teg ac annheg
- cydraddoldeb ac amrywiaeth
- gweithredu diwydiannol

Fel rhan o'r cwrs, byddwn hefyd yn ystyried datblygiadau fel partneriaeth gymdeithasol, a newidiadau yn y gweithle fel deallusrwydd artiffisial a'r newid i sero net.

Mae cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn cael Tystysgrif i Gynrychiolwyr Undebau Llafur ar lefel 2.

# Llwybr cynrychiolwyr iechyd a diogelwch

## Iechyd a diogelwch – rhan 1

Os ydych chi'n gynrychiolydd iechyd a diogelwch newydd, mae'r cwrs hwn yn hanfodol. Byddwch yn dysgu:

- beth mae bod yn gynrychiolydd iechyd a diogelwch yn ei olygu
- sut mae iechyd a diogelwch yn cael ei drefnu yn eich gweithle
- sut mae delio â materion iechyd a diogelwch yn y gwaith.

Byddwch yn edrych ar y gyfraith iechyd a diogelwch, ar archwiliadau diogelwch, ar asesiadau risg ac ar fesurau ataliol. Bydd y cwrs hwn yn dysgu hanfodion iechyd a diogelwch i chi ac yn eich cyflenwi â'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i gyflawni eich rôl yn effeithiol.

Mae cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn cael Tystysgrif i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau Llafur ar Lefel 1.

## Iechyd a diogelwch – rhan 2

Os ydych chi wedi cwblhau iechyd a diogelwch – rhan 1, neu'r hyn sydd gyfwerth yn eich undeb, bydd y cwrs hwn yn eich helpu chi i ddelio â'r materion pwysicach hynny. Bydd y cwrs yn ymdrin â'r canlynol:

- trefnu a chynllunio iechyd a diogelwch yn effeithiol,
- sut a phryd i'w ddefnyddio,
- sicrhau gwell bargen i aelodau,
- dadansoddi asesiadau risg,
- hyfforddiant iechyd a diogelwch.

Er ein bod yn ceisio sicrhau gweithleoedd mwy diogel i'n haelodau, rhaid i ni gydnabod hefyd yr angen am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Drwy gydol y cwrs, byddwch yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb fel:

- rhywedd a chyfarpar diogelu personol
- aflonyddu rhywiol
- anableddau cudd
- menopos

Mae cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn cael Tystysgrif i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau Llafur ar Lefel 2.

# Llwybr cynrychiolwyr dysgu undebau

## Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 1

Os ydych yn gynrychiolydd dysgu undebau newydd, mae'r cwrs hwn yn hanfodol. Bydd yn eich cyflenwi â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i fod yn Gynrychiolydd Dysgu Undebau effeithiol. Mae llawer mwy i rôl Cynrychiolydd Dysgu Undebau na dim ond trefnu cyrsiau yn eich gweithle. Mae'n golygu gweithio yn eich cangen, gyda'ch cyflogwyr, colegau a darparwyr i ehangu mynediad i ddysgu a sicrhau cyfle cyfartal yn eich gweithle. Bydd y cwrs yn dysgu'r canlynol i chi:

- Rôl undebau llafur mewn cysylltiad â dysgu a sgiliau
- Rôl Cynrychiolydd Dysgu Undebau
- Dulliau undebau llafur o ran dysgu yn y gweithle a modelau arferion gorau perthnasol
- Polisïau a rhaglenni allweddol sy'n berthnasol i'r system sgiliau oedolion yng Nghymru
- Sut mae hyrwyddo dysgu yn eich gweithle
- Sut mae nodi anghenion dysgu
- Sut mae gweithio gyda'ch cangen a'ch cyflogwr i gael gwared ar y rhwystrau i ddysgu a datblygu yn y gwaith

Mae cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn cael Gwobr i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau Llafur ar lefel 1.

## Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 2

Mae'r cwrs hwn yn datblygu ac yn ymestyn yr hyfforddiant hanfodol craidd ar gyfer cynrychiolwyr dysgu undebau. Bydd yn eich helpu i ddatblygu ymhellach yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen fel Cynrychiolydd Dysgu Undebau yn y gweithle. Bydd y cwrs yn eich helpu gyda'r canlynol:

- deall rôl Cynrychiolydd Dysgu Undebau fel rhan o dîm yr undeb
- datblygu dull undebau llafur o adeiladu cydraddoldeb a threfnu drwy ddysgu
- cefnogi aelodau yn unigol ac ar y cyd
- rôl cytundebau dysgu
- deall sut mae newidiadau yn y gweithle fel deallusrwydd artiffisial a'r newid i sero net yn effeithio ar sgiliau

Mae achrediad ar gael i gynrychiolwyr sy'n gwneud y cwrs hwn. Cysylltwch â TUC Cymru i gael rhagor o fanylion.

# Llwybr cynrychiolwyr gwyrdd

## Gwneud ein gweithleoedd yn fwy gwyrdd

Os ydych yn gynrychiolydd gwyrdd, mae'r cwrs hwn yn hanfodol. Bydd yn eich cyflenwi â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i fod yn gynrychiolydd gwyrdd effeithiol.

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at gynrychiolwyr gwyrdd/amgylcheddol newydd a phrofiadol yn ogystal ag undebwyr llafur eraill sydd am gymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn eu gweithle.

Mae'r cwrs yn ymdrin â'r canlynol:

- ➔ Deall yr argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol a nodi effaith hynny ar eich gweithle.
- ➔ Gweithio gyda'r gangen ac aelodau i ganfod materion cynaliadwyedd y mae angen eu codi â'r rheolwyr.
- ➔ Sut mae cynnal archwiliadau amgylcheddol yn y gweithle.
- ➔ Sut mae adolygu a datblygu polisïau a chytundebau amgylcheddol y gweithle.
- ➔ Codi ymwybyddiaeth a hybu arferion gweithleoedd gwyrdd.

Mae cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn cael Gwobr ar lefel 1.

## Trafod er mwyn sicrhau Trawsnewid Cyfiawn

Bydd y cwrs hwn yn helpu i arfogi cynrychiolwyr undebau llafur â gwybodaeth a syniadau am sut i ymateb yn strategol i'r her o roi llais i weithwyr ar y newid i economi sero-net.

Bydd yn eich helpu i ddatblygu negodi strategaethau at ddibenion cynllunio ar gyfer trawsnewid y gweithle a datblygu dealltwriaeth o effaith ehangach y newid ar faterion fel sgiliau yn y gweithle, swyddi ac iechyd a diogelwch.

Mae hwn yn gwrs hanfodol i helpu undebau i gefnogi proses bontio deg a chyfiawn sy'n cael ei harwain gan weithwyr ym mhob gweithle.

Byddwn ni'n edrych ar y canlynol:

- ➔ Archwilio pam mae trawsnewid cyfiawn yn ganolog i strategaeth economaidd y dyfodol
- ➔ Adolygu polisïau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ar newid hinsawdd
- ➔ Adolygu polisïau undebau llafur cenedlaethol a rhyngwladol
- ➔ Nodi polisïau economi werdd sector diwydiant
- ➔ Cael barn yr aelodau am flaenoriaethau trawsnewid cyfiawn
- ➔ Datblygu strategaethau negodi ar faterion blaenoriaeth yn y gweithle / gymuned

Ar gyfer pwy mae'r cwrs?

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at swyddogion undebau, negodwyr undebau, swyddogion canghennau, cynrychiolwyr undebau ac unrhyw gynrychiolwyr eraill sy'n rhan o drafodaethau yn y gweithle. Mae hefyd yn addas ar gyfer cynrychiolwyr undebau eraill, cynrychiolwyr iechyd a diogelwch, cynrychiolwyr gwyrdd a Chynrychiolwyr Dysgu Undebau sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am negodi ar gyfer pontio teg yn y gweithle.

Mae achrediad ar gael ar gyfer y cwrs hwn. Cysylltwch â TUC Cymru i gael rhagor o fanylion.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus - cyrsiau byr

Mae Addysg TUC Cymru yn cynnig cyfres o gyrsiau hanner diwrnod, undydd, deuddydd a thri diwrnod byr i helpu cynrychiolwyr i gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfoes. Yn ogystal â'r cyrsiau a restrir isod, gallwn hefyd gynnig cyrsiau pwrpasol. Os oes cwrs yr hoffech ei wneud ac nad ydych yn ei weld wedi'i restru, cysylltwch â ni.

## Cyflwyniad i ymwybyddiaeth amgylcheddol

Mae'r sesiwn hanner diwrnod fer hon yn cynnig cyflwyniad hanfodol i ymwybyddiaeth amgylcheddol i gynrychiolwyr undebau llafur. Mae ar gyfer pob cynrychiolydd undeb llafur ac nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol. Mae'n cyflwyno ac yn codi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae pobl wedi'u creu o ran yr amgylchedd, yr effeithiau nawr ac yn y dyfodol, ac yn ystyried camau cadarnhaol y gallwn eu cymryd fel unigolion ac undebwyr llafur.

## Phartneriaeth Gymdeithasol

Bydd y cwrs deuddydd newydd hwn yn grymuso cynrychiolwyr i ddefnyddio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd er budd aelodau. Bydd yn helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder perthnasol i ddatblygu partneriaeth gymdeithasol effeithiol yn eich gweithle.

Bydd y cwrs yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol a bydd cynrychiolwyr yn cael cyfle i ddatblygu cynllun gweithredu ymarferol ar gyfer eu gweithle.

## Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a'i atal

Bydd y cwrs tri diwrnod newydd hwn yn helpu cynrychiolwyr i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle a'i atal. Bydd yn eich helpu i wneud y canlynol:

- Nodi aflonyddu rhywiol a deall yr effeithiau
- Deall cyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr (gan gynnwys y ddyletswydd ataliol newydd)
- Negodi polisïau effeithiol ar gyfer y gweithle
- Cefnogi aelodau y mae aflonyddu rhywiol yn effeithio arnynt
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer eich gweithle

## Anabledd yn y gweithle

Mae'r cwrs tri diwrnod newydd hwn ar gyfer pob cynrychiolydd sydd eisiau gwella cydraddoldeb i bobl anabl yn y gweithle a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- gwahaniaethu ar sail anabledd a sut mae'n effeithio ar aelodau
- y model cymdeithasol o anabledd
- cyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr o dan y Ddeddf Cydraddoldeb
- addasiadau rhesymol
- cefnogi aelodau sydd ag 'anableddau cudd'
- polisïau effeithiol ar gyfer y gweithle

- → datblygu eich cynllun gweithredu eich hun ar gyfer y gweithle

Mae'r cyrsiau byr eraill sydd ar gael eleni yn cynnwys:

- → Iechyd meddwl – o fod yn wydn i allu gwrthsefyll
- → Delio â Dileu Swyddi
- → Y Menopos yn y Gweithle
- → Ymwybyddiaeth o awtistiaeth/ niwroamrywiaeth yn y gweithle
- → Delio â gwaith achos

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau hyn.

https://www.tuc.org.uk/cy/cyrsiau-ar-gyfer-holl-gynrychiolwyr-yr-undebau-tuc-cymru



# 3

# Cyrsiau



# Cysylltiadau ar gyfer ymholiadau am gyrsiau

## Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

Mae'n cynnig cyrsiau yng Nghaerdydd, Wrecsam ac ar-lein.

Cydlynydd y Cyrsiau: Mark Baines & Michelle Kerswell
Ffôn: 02920 746703

E-bost: Nicholas.Paul@adultlearning.wales

Cyfeiriad cyswllt:
Nicholas Paul
Astudiaethau Undebau Llafur Addysg Oedolion Cymru
7 Coopers Yard
Curran Road
Caerdydd CF10 5NB

Ffurflen gais:
https://tinyurl.com/WTUCApply

## Coleg Gwent

Mae'n cynnig cyrsiau yng Nghasnewydd ac ar-lein.

Cydlynydd y Cyrsiau: John James
Ffôn: 01633 466030 or 07527 450276

E-bost: John.James@coleggwent.ac.uk

Cyfeiriad cyswllt:
John James
Canolfan Astudiaethau Undebau Llafur
Coleg Gwent
Campws Dinas Casnewydd
Nash Road
Casnewydd NP19 4TS

Ffurflen gais:
https://tinyurl.com/WTUCApply

## Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill am y cyrsiau, neu os nad ydych yn gallu gweld y cwrs sydd ei angen arnoch, cysylltwch â Thîm Addysg TUC Cymru:

Ffôn: 029 2034 7010
E-bost: wtuc@tuc.org.uk

Wales TUC Education Service
1 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9SD

Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan i weld rhestr o gyrsiau newydd a'r rhai sydd wedi'u diweddaru:

tuc.org.uk/courses-reps-wales-tuc

# Tymor yr Hydref 2024

| Enw'r cwrs | Patrwm | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen | Lleoliad | Darparwr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 10 Gwe | 13 Medi | 22 Tach | Caerdydd | ALW |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 10 Gwe | 13 Medi | 22 Tach | Wrecsam | ALW |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 10 Maw | 24 Medi | 3 Rhag | Casnewydd | Coleg Gwent |
| Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 1 | 4 Mer | 25 Medi | 12 Hyd | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Cyflwyniad i ymwybyddiaeth amgylcheddol (i gynrychiolwyr) | 1 Iau (hanner diwrnod) | 5 Medi | 5 Medi | Ar-lein | ALW |
| Gwneud y gweithle'n fwy gwyrdd – sgiliau cynrychiolwyr gwyrdd | 3 Llun | 23 Medi | 7 Hyd | Ar-lein | ALW |
| Delio â dileu swyddi | 2 Mer | 7 Hyd | 14 Hyd | Casnewydd | Coleg Gwent |
| Phartneriaeth Gymdeithasol | 2 Llun | 16 Medi | 23 Medi | Casnewydd | Coleg Gwent |
| Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a'i atal | 3 Mer | 7 Tach | 20 Tach | Ar-lein | ALW |
| Anabledd yn y gweithle | 3 Llun | 4 Tach | 18 Tach | Ar-lein | ALW |
| Phartneriaeth Gymdeithasol | 2 Maw | 12 Tach | 19 Tach | Ar-lein | ALW |

# Tymor y Gwanwyn 2025

| Enw'r cwrs | Patrwm | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen | Lleoliad | Darparwr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 10 Llun | 13 Ion | 24 Maw | Casnewydd | Coleg Gwent |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 10 Gwe | 17 Ion | 28 Maw | Caerdydd | ALW |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 10 Gwe | 17 Ion | 28 Maw | Wrecsam | ALW |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 2 | 10 Gwe | 24 Ion | 4 Maw | Ar-lein | ALW |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 2 | 10 Maw | 14 Ion | 25 Maw | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 1 | 4 Llun | 27 Ion | 17 Chwef | Ar-lein | ALW |
| Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 2 | 4 Mer | 5 Maw | 26 Maw | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Cyflwyniad i ymwybyddiaeth amgylcheddol (i gynrychiolwyr) | 1 Maw (hanner diwrnod) | 14 Ion | 14 Ion | Ar-lein | ALW |
| Gwneud y gweithle'n fwy gwyrdd – sgiliau cynrychiolwyr gwyrdd | 3 Llun | 27 Ion | 10 Chwef | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Trafod er mwyn sicrhau Trawsnewid Cyfiawn | 3 Mer | 29 Ion | 12 Chwef | Ar-lein | ALW |
| Phartneriaeth Gymdeithasol | 2 Mer | 15 Ion | 22 Ion | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Y Menopos yn y Gweithle | 3 Llun | 10 Maw | 24 Maw | Ar-lein | ALW |
| Ymwybyddiaeth o awtistiaeth/ niwroamrywiaeth yn y gweithle | 2 Maw | 4 Maw | 11 Maw | Ar-lein | ALW |
| Iechyd Meddwl – o fod yn wydn i allu gwrthsefyll | 2 Llun | 31 Maw | 7 Ebrill | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Phartneriaeth Gymdeithasol | 2 Maw | 18 Maw | 25 Maw | Ar-lein | ALW |

# Tymor yr Haf 2025

| Enw'r cwrs | Patrwm | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen | Lleoliad | Darparwr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 10 Gwe | 2 Mai | 11 Gorff | Caerdydd | ALW |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 10 Gwe | 2 Mai | 11 Gorff | Wrecsam | ALW |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 10 Maw | 6 Mai | 15 Gorff | Casnewydd | Coleg Gwent |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 2 | 10 Llun | 28 Ebrill | 14 Gorff | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 2 | 10 Gwe | 9 Mai | 18 Gorff | Ar-lein | ALW |
| Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 1 | 4 Mer | 30 Ebrill | 21 Mai | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Cynrychiolwyr dysgu undebau – rhan 2 | 4 Maw | 14 Mai | 11 Meh | Ar-lein | ALW |
| Cyflwyniad i ymwybyddiaeth amgylcheddol (i gynrychiolwyr) | 1 Mer (hanner diwrnod) | 7 Mai | 7 Mai | Ar-lein | ALW |
| Gwneud y gweithle'n fwy gwyrdd – sgiliau cynrychiolwyr gwyrdd | 3 Llun | 2 Meh | 16 Meh | Ar-lein | ALW |
| Trafod er mwyn sicrhau Trawsnewid Cyfiawn | 3 Maw | 10 Meh | 24 Meh | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a'i atal | 3 Iau | 8 Mai | 22 Mai | Ar-lein | Coleg Gwent |
| Gwaith achos uwch | 2 Llun | 5 Mai | 12 Mai | Ar-lein | Coleg Gwent |

# Sut i wneud cais

Ar ein cyrsiau, rydym yn gwneud ein gorau i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn a manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu.

## Sut mae gwneud cais

Pan fyddwch wedi dewis y cwrs yr hoffech ei ddilyn, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen mynegi diddordeb.

Sganiwch y cod QR isod a llenwi'r ffurflen gais.

Ffurflen gais:
https://tinyurl.com/WTUCApply

## Cyn Gwneud Cais am Gwrs

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael amser o'r gwaith i fynd ar y cwrs hwn a'ch bod wedi rhoi gwybod i swyddog cangen yr undeb neu swyddog o'ch undeb eich bod yn bwriadu dilyn y cwrs. Mae canllawiau ynglŷn âg amser o'r gwaith ar gyfer hyfforddiant undeb ar gael ar dudalennau wyth a naw.

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais, byddwch yn cael e-bost cadarnhau awtomatig yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais. Bydd eich canolfan astudiaethau undeb llafur leol sy'n rhedeg eich cwrs yn cysylltu â chi i drafod ymhellach.

**SYLWER:** Oherwydd cyfyngiadau cyllido, mae'r cwrs hwn ar gyfer cynrychiolwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Os nad ydych yn gymwys i fynd ar y cwrs rydych yn gwneud cais amdano, byddwn yn gwneud ein gorau i'ch cyfeirio at gwrs arall addas os oes un ar gael.

Nid oes ffioedd cwrs ar gyfer rhaglen Addysg TUC Cymru. Bydd angen i chi siarad â'ch cyflogwr neu eich undeb am gostau teithio a chostau cysylltiedig eraill.





4

# Pecynnau cymorth ac adnoddau defnyddiol i gynrychiolwyr

# Pecynnau cymorth ac adnoddau defnyddiol i gynrychiolwyr

Mae TUC Cymru wedi cynhyrchu nifer o becynnau cymorth y gellir eu defnyddio yn y gweithle i helpu gydag amrywiol feysydd cydraddoldeb, addysg a materion amgylcheddol.

Rydyn ni'n eich annog i gysylltu â ni os hoffech siarad â'r tîm i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r pynciau a restrir.

Rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu'r pecynnau cymorth presennol a chreu adnoddau newydd i wella bywyd gwaith. Helpwch ni gyda'r broses hon drwy wylio ein harolygon a'n polau piniwn sy'n sail ar gyfer datblygu gwaith.

## Cydraddoldeb a gwahaniaethu

### Cefnogi gweithwyr LHDTC+

Dylai pawb gael bod yn nhw eu hunain. Mae pawb yn haeddu teimlo'n ddiogel ac yn cael eu parchu yn y gwaith. Fodd bynnag, er bod cymunedau LHDTC+ wedi gweld llawer o newid cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf, mae gormod o bobl yn dal i deimlo nad ydyn nhw'n ddiogel ac yn gyfforddus yn y gwaith. Nod ein cynllun gweithredu newydd 10 cam yw newid yr agwedd hon.

### Aflonyddu rhywiol yn y gweithle

Mae aflonyddu rhywiol yn rhan o ddiwylliant ehangach, di-baid o drais rhywiol a chasineb at ferched. Nid yw'n weithred ddi-nod y dylid ei derbyn fel rhan anochel o fywyd bob dydd. Mae'n broblem fyd-eang ac mae gwahanol rannau o'r byd yn delio â hi mewn gwahanol ffyrdd. Mae gennym gyfle i fynd i'r afael â'r broblem hon o ddifrif er mwyn gwneud Cymru y lle mwyaf diogel i weithio, byw a chymdeithasu.

Lawrlwythwch y pecyn cymorth ar aflonyddu rhywiol yn y gweithle er mwyn dod o hyd i wybodaeth a chymorth i'ch helpu.

### Menopos

Mae TUC Cymru wedi datblygu cyfres o becynnau cymorth ac adroddiadau ar y menopos sydd â'r nod o helpu cynrychiolwyr undebau llafur i weithio gyda chyflogwyr i wneud gwelliannau yn y gweithle. Mae'r adnoddau'n ymdrin â gwybodaeth hanfodol am y menopos ac yn edrych ar rai o'r problemau cyffredin yn y gweithle sy'n effeithio ar y rheini sy'n ei wynebu. Maen nhw'n cynnig adnoddau ymarferol i gynrychiolwyr undebau

llafur ac enghreifftiau o addasiadau i'r gweithle, camau gweithredu a rhestrau gwirio.

### Gwrth-hiliaeth yn y gweithle - 10 cam gweithredu ar gyfer cynrychiolwyr yn y gweithle

Nid yw gweithleoedd yn llefydd cyfartal, ac mae angen gweithredu i newid hynny. Mae undebau'n allweddol i wneud y newidiadau hyn drwy fargeinio, negodi a gweithredu ar y cyd. Fel undebwyr llafur, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i ddarparu undod, cyfleoedd a bargen deg i weithwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Rydyn ni wedi siarad â'r llywodraeth, wedi cyfrannu at bolisïau, ac wedi gwneud llawer o newidiadau a chynlluniau.

Nawr yw'r amser i weithredu er mwyn i ni allu cymryd camau gwirioneddol tuag at wrth-hiliaeth.

### Gwrthsefyll y dde eithafol

Mae eithafiaeth y dde eithafol ar gynnydd yn ein gweithleoedd a'n cymunedau. Ers refferendwm Brexit rydym wedi gweld cynnydd yng ngweithgareddau'r dde eithafol ledled Cymru.

Mae ymgyrchwyr y dde eithafol wedi bod yn ymgasglu yn ein strydoedd ac ar-lein, gan geisio recriwtio mewn cymunedau sy'n dioddef blynyddoedd o esgeulustod, tanariannu a diweithdra. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o'n cymunedau ni yma yng Nghymru.

Rhowch gynnig ar ein canllaw rhyngweithiol Gwrthsefyll y Dde Eithafol heddiw.

### Anabledd a nam 'cudd'

Rhaid i gyflogwyr a'r llywodraeth wneud mwy i wella cydraddoldeb i bobl anabl yn y gweithle. Cynhaliodd TUC Cymru arolwg mawr ar fwy na 1000 o weithwyr yng Nghymru a chanfu bod llawer o weithwyr anabl eisiau gweld newid yn y ffordd mae anabledd yn cael ei drin yn y gwaith.

O ganlyniad, mae TUC Cymru wedi llunio rhestr o ofynion ymgyrch ar gyfer llywodraethau Cymru a'r Du, yn ogystal â phecyn adnoddau ymarferol y gall cynrychiolwyr yr undebau llafur ei ddefnyddio i bwyso am welliannau yn y gweithle.

### Cefnogi gweithwyr hŷn

Mae poblogaeth Cymru'n heneiddio'n gyflym, rydyn ni'n byw'n hirach ac yn cael llai o blant. Wrth i'r boblogaeth gyffredinol heneiddio, yna mae gweithlu Cymru'n dilyn ei esiampl. Mae mwy o weithwyr 50 oed a hŷn yng Nghymru nag erioed o'r blaen.

### Ymgyrch Siarter Afiechyd Marwol

Mae nifer o weithwyr yn cael salwch difrifol rywbryd yn ystod eu bywydau. Efallai y bydd arnynt angen amser o'r gwaith, am fisoedd weithiau, i gael triniaeth neu i wella. Ond, ar adegau, does dim triniaeth effeithiol. Yn yr achosion hynny, mae'r gweithiwr a'i deulu'n wynebu straen emosiynol enfawr, ofn, a phryderon ariannol o bosib.

Gall y Siarter Afiechyd Marwol helpu i leddfu rhywfaint ar y straen hwnnw ac mae'n cyflwyno ffordd y cytunwyd arni i gyflogeion gael eu trin a'u cefnogi os ceir diagnosis o salwch terfynol.

### Gamblo Problemus

Er gwaethaf y cynnydd mewn bod yn gaeth i gamblo, mae dioddefwyr yn teimlo llawer iawn o stigma a chywilydd. Gall undebau chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gael gwared ar y stigma hwnnw yn y gweithle a chyfeirio aelodau at y cymorth priodol.

## Dysgu a sgiliau

### Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau

Mae dysgu undebau yn cael dylanwad ar bopeth sy'n bwysig iddyn nhw. Gall helpu i wella iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal, sicrwydd swydd a thâl.

Gall undebau llafur chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod gan aelodau'r sgiliau sydd eu hangen i gystadlu yn swyddi'r dyfodol. Gellir mynd i'r afael â llawer o'n heriau economaidd yn y dyfodol, fel digideiddio ac awtomeiddio drwy ddysgu a sgiliau.

## Dyfodol y byd gwaith

### Arweinlyfr Gweithleoedd Gwyrddach a Phontio Teg

Nod y pecyn hwn yw rhoi gwybodaeth i helpu swyddogion undebau a chynrychiolwyr yng Nghymru sydd eisiau gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur a negodi proses bontio i weithleoedd gwyrddach a thecach sy’n cael ei harwain gan weithwyr.

Dysgwch fwy am ein hymgyrch gweithleoedd gwyrddach a phontio teg.

### Canllaw bargeinio i undebau llafur ar gyfer teithio gwyrddach, iachach a thecach

M ae’r canllaw hwn yn edrych ar pam mae teithio cynaliadwy yn fater pwysig i undebwyr llafur, ac mae’n edrych ar ba gamau y gellir eu cymryd yn y gweithle.

### Beth ddylwn i ei ddisgwyl gan fy rheolwr pan fyddaf yn gweithio gartref?

Egwyddorion ar gyfer gweithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur wrth drafod gweithio gartref gyda’ch cyflogwr

Mae llawer mwy o bobl yn gweithio’n hyblyg nag o’r blaen. Mae hyn yn gallu cynnig llawer o fanteision i weithwyr. Gall eu helpu i gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

### Canllaw bargeinio i undebau llafur ar effeithlonrwydd adnoddau

Mae’r canllaw hwn yn edrych ar sut y gall cynrychiolwyr weithio gyda chyflogwyr ac aelodau i leihau effaith amgylcheddol eu sefydliad drwy leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd adnoddau.

## Deallusrwydd Artiffisial, awtomateiddio a digidoleiddio yn y sector cyhoeddus

Gallai technoleg ddigidol newydd gael effaith ddifrifol ar weithlu gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Mae'r effeithiau posibl yn cynnwys colli swyddi, mwy o anghydraddoldeb, hyfforddiant annigonol a swyddi o ansawdd is. Bydd yn bwysig i undebau llafur ystyried eu hymateb i ddyfodiad technoleg ddigidol.

Mae'r ddau adroddiad yma'n tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi gweithwyr i gael gafael ar sgiliau newydd ac, yn hollbwysig, gwreiddio arferion da drwy negodi â chyflogwyr ar draws y sectorau allweddol rydyn ni'n gwybod y mae'r effaith fwyaf arnynt. Mae wedi'i anelu at ein cynrychiolwyr yn y gweithle. Mater i chi yw dechrau'r sgyrsiau hyn gyda'ch cyflogwyr a'ch cydweithwyr er mwyn gwireddu'r uchelgais o gyflawni trawsnewid cyfiawn yng Nghymru a mynd i'r afael â'r newidiadau mawr sy'n wynebu gweithwyr heddiw.

1. *Negodi awtomatiaeth* a thechnoleg newydd
2. Negodi dyfodol gwaith: Sero net

## Cipolwg ar ddealltwriaeth a phrofiad gweithwyr yng Nghymru o ddeallusrwydd artiffisial

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi cipolwg ar brofiad gweithwyr yng Nghymru o ddeallusrwydd artiffisial ar hyn o bryd. Y nod yw llywio ymateb yr undeb i AI, a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru a phartneriaid ehangach yn y dyfodol.

Mae undebwyr llafur yng Nghymru yn addasu ac yn dysgu'n gyflym mewn ymateb i'r defnydd mwy a wneir o ddeallusrwydd artiffisial. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy gyda'n gilydd. Rhaid i weithwyr, undebau, cyflogwyr, technolegwyr a Llywodraeth Cymru weithio law yn llaw i wireddu'r cyfleoedd a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth artiffisial gyda'i gilydd.

Gyda dull partneriaeth gymdeithasol, gallwn sicrhau bod pawb yn ffynnu yn yr amgylchedd newydd hwn ac nad oes unrhyw weithiwr yn cael ei adael ar ôl.

## Trefnu a bargeinio

### Contractau dim oriau yn y sector cyhoeddus - canllaw sydyn i gynrychiolwyr

Gweithwyr ar gontractau 'dim-oriau' yw rhai o'r bobl fwyaf bregus a dan fygythiad yn y gweithlu.

Mae gan weithwyr ar gontract 'dim-oriau' hawliau statudol o hyd, gan gynnwys yr isafswm cyflog cenedlaethol, gwyliau â thâl, a'r hawl i gael seibiant gorffwys. Ac yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, mae ganddyn nhw'r hawl i gael cynnig contract rhan-amser neu amser llawn ar ôl cyfnod o ddeuddeg wythnos yn y swydd.

### Cyrraedd gweithwyr ifanc

Mae angen i'n mudiad ni ehangu os ydyn ni eisiau parhau i fod yn un sy'n gallu newid byd gwaith. I wneud hynny, mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd o gael rhagor o aelodau ifanc yn ein hundebau llafur. Heb aelodau ifanc, fyddwn ni ddim yn gallu gwneud y newidiadau rydyn ni eisiau eu gweld.

### Sicrhau bod Cymru'n Wlad o Waith Teg

Rydyn ni'n ymgyrchu i sicrhau bod Cymru yn Wlad o Waith Teg – lle mae gweithwyr yn cael bargen well. Mae cyflogau isel, contractau dim oriau ac anghydraddoldeb yn difetha ein heconomi.

Mae angen gweithredu nawr – mae angen sicrhau bod gwaith yn decach.



5

# Rhwydweithiau ac E-ddysgu Rhyngweithiol

# Rhwydweithiau Cynrychiolwyr

Mae gennym nifer o rwydweithiau gweithredol lle gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am faterion pwysig yn y gweithle.

Maent hefyd yn darparu cyfleoedd parhaus i rwydweithio a rhannu profiadau gyda chynrychiolwyr eraill y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal Rhwydwaith Cynrychiolwyr Dysgu Undebau a Rhwydwaith Gweithleoedd Gwyrddach yn rheolaidd.

Rydym yn bwriadu lansio rhwydwaith newydd o gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yn ystod gwanwyn/haf 2024. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan. Cofrestrwch ar gyfer ein rhestr bostio yma https://bit.ly/4dtCB3X i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae cyfarfodydd rhwydwaith hefyd yn aml yn cynnwys diweddariadau gan TUC Cymru a sefydliadau allanol perthnasol.

## Rhwydwaith Cynrychiolwyr Dysgu Undebau

Mae Cynrychiolwyr Dysgu Undebau yn ased amhrisiadwy sy'n helpu undebau i gyrraedd dysgwyr. Ar y cyd â Chronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) maent yn gallu cefnogi amrywiaeth o gyfleoedd dysgu yn cynnwys llythrennedd digidol, cyrsiau proffesiynol pwrpasol a chymorth wrth newid gyrfa neu gyda newid sefydliadol.

Yn eu gweithle, bydd Cynrychiolydd Dysgu'r Undebau yn gwneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth o werth dysgu
- helpu i drefnu cyrsiau
- cefnogi ac annog aelodau i gymryd rhan mewn dysgu



- hyrwyddo cydraddoldeb ac iechyd a lles drwy ddysgu

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Gynrychiolydd Dysgu Undebau, siaradwch ag ysgrifennydd eich cangen neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at WULR@tuc.org.uk

## Rhwydwaith Gweithleoedd Gwyrddach TUC Cymru

Rhwydwaith i gefnogi cynrychiolwyr undebau llafur sy'n ymgyrchu dros weithleoedd gwyrddach a phontio teg.

Ymunwch â ni a dod yn rhan o rwydwaith gefnogol a chyfeillgar sy'n agored i'r holl swyddogion undebau llafur, cynrychiolwyr ac ymgyrchwyr – gan gynnwys cynrychiolwyr gwyrdd, cynrychiolwyr iechyd a diogelwch, cynrychiolwyr undebau, cynrychiolwyr undebau dysgu a swyddogion cangen eraill sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, gan hyrwyddo cynaliadwyedd yn y gweithle ac ymgyrchu dros bontio teg sy'n cael ei arwain gan weithwyr.

Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod ar-lein tua 4-5 gwaith y flwyddyn, gyda sesiynau wyneb yn wyneb achlysurol.

Bydd pob cyfarfod yn cynnwys siaradwyr gwadd i archwilio gwahanol bynciau, yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr rwydweithio a rhannu arferion da, ac yn cynnwys diweddariad gan TUC Cymru.

I gael gwybod am newyddion a digwyddiadau rhwydwaith TUC Cymru, cofrestrwch ar ein rhestr bostio yma https://bit.ly/4dtCB3X



# Nodiadau:

**Dyluniwyd gan:** Gavin Pearce (TUC Cymru)

**Lluniau:** Mae pob llun a darlun at ddibenion enghreifftiol yn unig. Mae lluniau sydd heb gael eu priodoli i rywun yn luniau stoc sy’n dangos modelau, ac maent yn dod o Gyngres yr Undebau Llafur, iStock, Adobe Stock a Storyblocks.

Wales TUC Cymru

© 2024 TUC Cymru

Gallwn ddarparu pob cyhoeddiad TUC mewn fformat hygyrch cytunedig ar gyfer darllenwyr dyslecsig neu sydd â nam ar eu golwg ar gais, heb gost ychwanegol.

e: wtuc@tuc.org.uk  t: 029 2034 7010

Cyhoeddwyd gan:
TUC Cymru,
1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9SD
www.tuc.org.uk/wales